CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
21 Chwefror 2017, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D ap Rhobert, G D Williams, D Morgan, D Pritchard, D Roberts, W Vaughan, W Williams, PCSO A Williams, 3 aelod o'r cyhoedd	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod cyhoeddus gan Cyng D Pritchard a'r cyfarfod misol gan y Cadeirydd Cyng D Roberts. Yr oedd y rhan gyntaf o'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd i drafod cais cynllunio 23C280F Plas Llanfihangel, Capel Coch. Cytunwyd i gwrthwynebu y cais: Yn unol â chais gan yr Adran Cynllunio, mae trigolion Capel Coch wedi bod yn monitro'r safle ac wedi hysbysu'r Cyngor Sir bod gwaith wedi dechrau heb ganiatad. Mae Cyngor Cymuned Llanddyfnan yn gwrthwynebu yn gryf i'r cais ar y sail 1 bod y sied ar dir uchel ac yn weladwy mewn sawl cyfeiriad. 2 bod Cyngor Sir Ynys Môn heb atal y sied cael ei godi heb ganiatâd cynllunio. Mae'r Cyngor Cymuned yn siomedig iawn nodi bod y Cyngor Sir wedi methu â phenodi swyddog gorfodi i fod yn bresennol ar y safle, gan wybod bod y gwaith yn mynd ymlaen heb ganiatâd.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 24 Ionawr 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn, Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D ap Rhobert yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mewn llaw
4.2	**Coed - Maes y Coed** - Mae'r gwaith yn Maes y Coed wedi cael ei wneud
4.3	**Damwain sgwar Talwrn** - Mae'r Cyngor Sir yn gobeithio gwneud y gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol
4.4	**Baw ci lôn yr Ysgol -** Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.5	**Arwyddion baw ci** rhwng Lon Hen Hafod a Lon Penybryn yn Talwrn - mewn llaw
4.6	**Penderfyniad Cais cynllunio 23C332** - Cytunwyd i dynu'r mater o ar yr agenda
4.7	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Mewn llaw
	Llofnod…….Cadeirydd 21.03.17

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C280F Cais ol weithredol ar gyfer sied amaethyddol a parlwr godro ynghyd a chreu pwll slyri, dau silo a gwaith cysylltiedig yn Plas Llanfihangel, Capel Coch. Digrifiad a Chynlluniau Diwygiedig - gweler uchod
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	G Hughes Clirio wal y fynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd £45.00
7.2	Aelodaeth Unllais Cymru £139.00
7.3	Wales Audit £213.30
7.4	Derbyniwyd £40 gan Mrs Sylvia Sherrat, 2 Maes y Coed, Talwrn (Neighbourhood Watch Scheme) - rhodd i'r Cyngor Cymuned am nad yw'r cynllun yn bodoli
5	
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Adeiladu 10 caban gwyliau (pren) Tyddyn Isa Farm, Mynydd Bodafon - Cytunwyd i gwrthwynebu: Mae y mynediad i'r datblygiad arfaethedig ar hyd ffordd trac sengl. Nid yw'r ffordd yn addas, ni all gynnal traffig ychwanegol a traffig ychwanegol a fyddai'n fod yn berygl i iechyd a diogelwch.
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Beth yw polisi y Cyngor Sir ar gosod clogfeini wrth fynedfeydd preswyl
	Llofnod…….Cadeirydd 21.03.17